

Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc: 22 Medi 2020

Camau dilynol yr ymchwiliad i weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc Llywodraeth Cymru

1. Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Yn bresennol:

Aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol

Dr Dai Lloyd AS

Yn cyflwyno

Dr Fiona Jenkins, Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc
Dr Chris Jones, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Cymru
Katie Chapelle, Y Gymdeithas Strôc

Yn bresennol

Matt O'Grady, Y Gymdeithas Strôc
Nicola Davies-Job, Coleg Nyrsio Brenhinol
Abdul Seckam, Hwb Strôc Cymru
Anna Morgan, goroeswr strôc
Ross Evans, Y Gymdeithas Strôc
Daryl Harris, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Craig Lawton, Cymdeithas Feddygol Prydain yng Nghymru
Calum Higgins, Cymdeithas Siartredig y Ffisiotherapyddion
Liz Kenward, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
Caroline Walters, Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith
Steven Ray, Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain yng Nghymru
Anne Freeman, Cyn-arweinydd Clinigol ym maes Strôc yng Nghymru
Llinos Wyn Parry, Y Gymdeithas Strôc
Nick Cann, goroeswr strôc
Rachel Jenkins, Pfizer
Hywel Morgan, Cydweithfa GIG Cymru
Naila Noori, Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith
Jeannie Wyatt-Williams, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Dr Shakeel Ahmad, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
Dr Raza Alikhan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Heledd Roberts, swyddfa Rhun ap Iorwerth AS
Bethan Edwards, Sefydliad Prydeinig y Galon

2. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Daeth KC yn Gadeirydd ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Roedd Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol wedi'i anfon drwy e-bost at aelodau ymlaen llaw. Gofynnodd KC am enwebiadau ar gyfer y Cadeirydd a'r Ysgrifenyddiaeth.

Ail-etholwyd Dr Dai Lloyd AS yn Gadeirydd ac ail-etholwyd Matt O'Grady yn Ysgrifenyddiaeth.

3. Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymchwiliad i weithredu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc

Gofynnodd y Gweinidog i CJ fod yn bresennol. Rhoddodd gyd-destun bod y pandemig wedi bod yn flaenoriaeth ar gyfer polisi gofal iechyd ac o ganlyniad i hynny mae gofal strôc wedi dioddef yn eithaf sylweddol ynghyd â llawer o agweddau eraill ar ddarpariaeth gwasanaethau canolog. Bu gostyngiad enfawr yn nifer y bobl a aeth i'r ysbyty gyda strôc. Mae pobl yn ofni dod i'r ysbyty, a heriau eraill fel ambiwlansys a diagnosg.

Mae gofal strôc bob amser wedi cael ei ystyried yn wasanaeth hanfodol.

Cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd ganllaw gwasanaethau hanfodol yn gynnar yn y pandemig i'w gwneud yn glir y dylai gofal strôc barhau. Cyhoeddodd Cymru ei chynllun ei hun, yn ogystal â sicrhau bod Byrddau Iechyd Prifysgol yn cael eu dwyn i gyfrif gan grŵp ymateb gwasanaethau hanfodol. Mae'r pandemig yn creu pedwar math o niwed; uniongyrchol, dadleoli gofal iechyd o fath arall, niwed os yw'r GIG yn cael ei lethu a niwed tymor hir yn sgil difrod economaidd. Trafodwyd yr ail gategori o niwed.

Mae modiwl AF bellach yn opsiwn ar gyfer meddygon teulu ac mae 90 y cant o feddygfeydd wedi dewis y modiwl hwnnw. Roedd y fframwaith yn trosglwyddo i'r flwyddyn nesaf ac yn seiliedig ar fodel atal strôc.

Dyweddodd CJ fod y Cynllun Cyflawni presennol ar gyfer Strôc wedi cael ei ymestyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried dros y gaeaf beth ddylai'r dull nesaf fod. Heb ystyried yn llawn beth y dylai'r dull newydd fod. Mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc wedi'i ymestyn hyd at fis Mawrth 2022. Mae'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc yn dal i fodoli gyda £1 miliwn y flwyddyn ar gyfer gwella gofal strôc. Ar ôl i bopeth setlo, bydd angen ystyried y ffordd ymlaen. Gallai Gweithrediaeth GIG newydd arwain ar ddull gweithredu a gallai olygu cynllun strôc newydd neu gynllun sy'n seiliedig ar gyflyrau cardiofasgwlaidd. Datganiad polisi lefel uchel posibl gan Lywodraeth Cymru a gall Gweithrediaeth y GIG lunio ei gynllun ei hun.

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn gweithio i wella sefyllfa'r gweithlu ar gyfer INRs ac asesu cymhwysra. Mae denu pobl yn heriol ar hyn o bryd. Mae'n anodd arwain o ran annog meddygon i fynd i faes meddygaeth strôc ar hyn o bryd. Yr iâr a'r wy – anodd denu pobl heb weithlu sy'n gweithredu'n llawn eisoes.

Mae'r gwasanaeth ambiwlans yn ei chael hi'n anodd ar hyn o bryd wrth iddo ddod i delerau â phrosesau rheoli heintiau. Glanhau, cyfarpar diogelu personol ac ati. Wrth

i'r ail frig ddatblygu mae'n debygol y bydd problemau a gafwyd yn y brig cyntaf yn codi eto. Mae'n debygol y bydd pobl yn teimlo'n ofnus ac y bydd nifer y derbyniadau strôc yn gostwng. Mae'r ail don o niwed eto i ddod.

Rhoddodd FJ ragor o gyd-destun i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar wasanaethau hanfodol. Mae Byrddau Iechyd Lleol yn edrych ar eu cynlluniau o fewn y cyfnod pontio ac ar ailddechrau gwasanaethau. Mae Byrddau Iechyd Lleol yn ymbaratoi ar gyfer ail don Covid-19. Maent yn gwneud eu gorau glas yn y sefyllfa maen nhw ynddi. Fframwaith moesegol i ddiwallu'r holl anghenion, gan gynnwys yr effaith ar boblogaethau BME. Cyfrifoldeb dros gleifion o bob cefndir. Edrych ar drefniadau llywodraethu a modelau arweinyddiaeth yn ogystal â chynlluniau ar gyfer trosglwyddo a lliniaru risg.

Mae llawer o'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc cyfredol wedi'i gyflawni ond mae mwy i'w wneud eto.

Mae'r Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal yn fater ehangach na strôc ei hun. Gweithiodd y Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc gyda grŵp cardiaidd a chydweithwyr yng Nghwm Taf i ystyried sut y gallant estyn allan at y poblogaethau sydd eu hangen fwyaf. Mae angen edrych ar iechyd y boblogaeth gan edrych at y dyfodol. Mae'n fwy eang a phellgyrhaeddol na'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc. Byddwn wedi canolbwyntio ein sylw wrth inni symud allan o'r pandemig.

Cafodd y ffordd o reoli pyliau o isgemia dros dro ei herio pan ddechreuodd y pandemig. Mae technoleg rithwir yn helpu pobl i weld arbenigwr o fewn 24 awr. Mae pob Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried sut gellir gwella pethau. Un peth cadarnhaol yw bod gwasanaethau pyliau o isgemia dros dro wedi gwella yng Nghaerdydd o ganlyniad i hynny. Bydd mwy o waith yn mynd rhagddo.

Soniodd FJ am unedau strôc hyperaciwt. Mae Byrddau Iechyd Lleol wedi bod ar y daith hon ers cryn amser ac nid yw'r pandemig wedi helpu cyflymder y newid. Mae Byrddau Iechyd Lleol yn edrych ar gronfeydd cyfalaf a refeniw. Bydd y pandemig yn achosi heriau ariannol. Dylai unedau strôc hyperaciwt barhau i fod yn nod tymor hwy ac mae cynnydd yn cael ei wneud ond nid mor gyflym ag y gobeithiwyd amdano yn wreiddiol.

Dywedodd FJ fod y Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc yn ddiolchgar i Uned Gyflawni'r GIG am eu hadolygiad o thrombolysis. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i unedau brys fod yn gweithredu mewn cyflwr gwahanol nag y maent yn y pandemig. Ni fydd y prosesau yn gweithredu'n union fel y gall y Byrddau Iechyd ei obeithio yn ystod y pandemig.

Mae thrombectomi yn parhau i fod yn gonglfaen o ran ble mae angen i ni fynd â gwasanaethau. Nid yw wedi cael ei roi i'r naill ochr. Mae cyllid y Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc yn edrych ar arloesi ac arian eleni sy'n edrych ar dechnoleg arloesi (AI) ar gyfer rhoi diagnosis i gleifion a allai elwa o thrombectomi neu thrombolysis. Mae'n

ddiolchgar i gydweithwyr yn WHSSC ac mae'n un o'u blaenoriaethau. Cysylltu â'r angen am newid yn y gweithle. Mae mwy i'w wneud o hyd.

Dywedodd FJ fod angen therapïau ac ESD i alluogi pobl i fynd yn ôl i'w bywydau arferol. Dywedodd FJ fod y Gymdeithas Strôc yn ymwybodol bod gwasanaethau bywyd ar ôl strôc yn cael eu heffeithio yn ogystal â gwasanaethau iechyd. Mae cleifion wedi cael mynediad da at ofal ond nid yn y ffordd draddodiadol. Mae angen rhoi mwy o sylw i'r ffordd rydym yn ailgychwyn gwasanaethau, ond nid yw rhai wedi stopio. Mae'n debygol o fod yn wahanol ar ôl Covid.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb maes o law i argymhellion llawn yr ymchwiliad.

Rhoddodd FJ y wybodaeth ddiweddaraf am recriwtio Arweinydd Clinigol newydd ar gyfer Strôc – mae Dr Phil Jones bellach wedi ymddeol. Dyddiad y cyfweliad yw 14 Hydref. Gallai ddod o unrhyw broffesiwn perthynol. Daw cefnogaeth gan ba bynnag broffesiynau eraill sy'n ofynnol.

Mae llawer o bwysau wedi bod ar wasanaethau aciwt. Bu'n rhaid adleoli Uned Strôc Caerdydd dair gwaith. Mae'r gallu i ryddhau pobl o'r ysbyty hefyd wedi'i beryglu. Bu'n rhaid cadw cleifion yn yr ysbyty am gyfnod hwy nag y byddent wedi'u cadw o'r blaen. Mae'n rhaid cymeradwyo pawb sy'n gweithio yn y gwasanaethau hyn ac mae staff strôc wedi cael eu tynnu i mewn i waith arall heblaw strôc.

Cwestiynau

Dywedodd KC fod y Gymdeithas Strôc wedi gweithio gyda Llywodraethau ledled y DU i atgyfnerthu neges FAST. Nid ydym wedi gweld cymaint o hyn yng Nghymru a gofynnodd i CJ a oedd unrhyw gynlluniau i roi cyhoeddusrwydd i hyn pe bai ail don. Gofynnodd hefyd a oedd 111 wedi cael unrhyw hyfforddiant ychwanegol ar gyfer strôc wrth frysbennu.

Dywedodd CJ nad derbyniadau strôc yn unig yr effeithiwyd arnynt. Roedd ymgyrch gyfathrebu enfawr yn ystod y don gyntaf a oedd yn cyfleu bod y GIG ar agor. Mae'n debygol y bydd angen gwneud hyn eto yn ystod yr ail don ond nid yw'n eglur a fydd hyn yn ymwneud â FAST, gan nad yw'n ymwneud â strôc yn unig. Gofynnodd CJ a oedd problem gyda'r cyngor ar strôc a bydd yn rhoi adborth os oes problem gyda hynny.

Diolchodd RA i'r Grŵp Gweithredu ar Strôc a'r Gymdeithas Strôc am eu cefnogaeth i'r prosiect atal strôc. Yn ystod y brig, newidiodd gofal sylfaenol nifer sylweddol o gleifion i wrthgeulyddion newydd a chynyddodd nifer y cleifion Ffibriliad Atriaidd a oedd yn cael dull gwrthgeulo. Rydym yn cymeradwyo'r gwasanaethau gofal sylfaenol am wneud gwaith rhyfeddol o dan bwysau aruthrol. Mae brechiadau pellach yn gyfle i sgrinio. Dywedodd DL fod hynny'n syniad gwych. Nid oedd CJ yn ymwybodol o'r cynnydd ac roedd yn ei groesawu. Dywedodd y byddai sgrinio yn ystod pandemig yn heriol iawn oherwydd cyfarpar diogelu personol a chadw pellter cymdeithasol. Mae'n gam yn rhy bell yn ymarferol. Dyma un o'r blynyddoedd anoddaf i wneud hyn.

4. Canfyddiadau gwaith ymchwil y Gymdeithas Strôc i Covid-19 a strôc

Amlinellodd KC stori Peter. Cafodd strôc yn 2017 a phrofodd iselder. Roedd yn teimlo ei fod wedi'i adael ar ôl gan y system wedi chwe wythnos o gefnogaeth seicolegol generig. Roedd wedi ymgysylltu â gwasanaethau'r Gymdeithas Strôc cyn y pandemig ond mae'r cyfyngiadau symud wedi cael effaith negyddol.

Cynhaliodd y Gymdeithas Strôc arolwg ar-lein ym mis Mehefin eleni. Cafwyd 2000 o ymatebion gan gynnwys 133 yng Nghymru (104 o oroeswyr strôc, 29 o ofalwyr). Dyma oedd yr arolwg mwyaf cynhwysfawr o'r gymuned strôc ers i'r pandemig ddechrau. Defnyddiwyd tystiolaeth gan y gymuned strôc ehangach hefyd. Cafodd mwyafrif yr ymatebwyr strôc yn 2018 neu'n gynharach. Mae tystiolaeth anecdotaidd ar gael gan y rhai a gafodd strôc yn ystod y pandemig.

Dywedodd KC fod rhai cyfyngiadau i'r data, gyda niferoedd isel mewn rhai ardaloedd. Pobl hŷn wedi'u gorgynrychioli, pobl BME heb gynrychiolaeth ddigonol.

Themâu a gododd o'r gwaith ymchwil:

- Diffyg mynediad at adsefydlu a chefnogaeth
- Effaith ar iechyd meddwl a llesiant
- Gofalwyr yn teimlo straen yn sgil mwy o ddyletswyddau gofalu

Adsefydlu a chymorth oedd y brif effaith y clywodd y Gymdeithas Strôc amdani. Roedd goroeswyr strôc yn teimlo eu bod wedi cael eu gadael ar ôl. Roedd 48 y cant wedi cael therapïau wedi'u canslo neu eu gohirio. Nid oedd gan 23 y cant unrhyw fath arall o gefnogaeth. Perygl o garfan anghofiedig. Roedd cleifion a gafodd gymorth rhithwir yn hapus i'w gael.

Iechyd meddwl a llesiant – Mae rhai wedi ymdopi'n dda, ond i'r rhai nad ydynt yn ymdopi, maent wedi teimlo'n eithaf llwm. Roedd 68 y cant yn teimlo'n fwy pryderus neu isel eu hysbryd ac roedd 72 y cant yn poeni am eu hiechyd. Mae'r Gymdeithas Strôc wedi llwyddo i roi cefnogaeth ar-lein, fel ymarfer côr dros Zoom. Fodd bynnag, mae'n dal i effeithio ar y rhai sy'n colli'r cysylltiad o ddydd i ddydd.

Gofalwyr – mae 57 y cant yn teimlo bod pethau'n ormod ac yn methu ymdopi ac mae 68 y cant yn gwneud mwy o ofalu. Y newyddion da oedd bod 55 y cant wedi dweud eu bod wedi bod yn cael y wybodaeth a'r gefnogaeth gywir.

Cwestiynau

Roedd y Gymdeithas Strôc yn poeni am sut mae hyn yn effeithio ar gynnydd cenedlaethol. Rhaid i bandemig beidio ag effeithio ar adferiad pobl. Mae pandemig wedi cael rhai effeithiau cadarnhaol, fel datblygu a chynhyrchu canllawiau yn gyflym. Mae systemau iechyd yn addasu'n gyflym ac mae'n rhaid croesawu gwaith clinigwyr. Fodd bynnag, ceir pryder ynghylch a fydd Llywodraeth Cymru yn anwybyddu ymrwymïadau presennol a chanfyddiadau'r ymchwiliad.

Ymhlith yr argymhellion mae cynllun cyflawni newydd, adolygiadau chwe mis, cymorth i ofalwyr a buddsoddi mewn negeseuon FAST. Rhaid i gymorth iechyd meddwl fod yn rhan o hyn hefyd. Mae angen i bobl wybod bod gwasanaethau strôc yn dal i fod ar gael. Roedd goroeswyr strôc hefyd wedi drysu ynghylch gwarchod a bod yr arweiniad braidd yn aneglur iddynt.

Gofynnodd DH a oedd angen mwy o bwyslais ar iechyd meddwl yn y gymuned. Dywedodd KC nad oedd gwasanaethau strôc weithiau'n teimlo bod angen cymorth iechyd meddwl tan yn ddiweddarach yn eu proses wella felly mae angen cynnwys iechyd meddwl yn eu hadferiad. Mae angen mynd i'r afael â hyn. Dywedodd DH fod y dystiolaeth yn dangos mai'r amser mwyaf cyffredin o ran angen yw rhwng chwech a 12 mis.

5. Unrhyw fater arall.

Ni chyrrhaeddwyd yr eitem agenda.

6. Dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod nesaf

I'w gadarnhau a'i anfon maes o law.